COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 31 HYDREF 2024 AM 10:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | RJ Collins | S Easterbrook | M L Hughes |
| A Wathan | | | |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| C L C Davies | S J Griffiths | D T Harrison | M R John |
| J E Pratt | R J Smith | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu |
| Jane Dessent | Cyfreithiwr |
| Lee Evans | Pen Swyddog Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Cymorth Cynllunio |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Steven Jenkins | Arweinydd Tim Rheoli Datblygu - Gorllewin |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Phillip Thomas | Arweinydd Tim Rheoli Datblygu - Dwyrain |
| Leigh Tuck | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |

## 60. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr D M Hughes, M J Kearn, W J Kendall, J Llewellyn-Hopkins ac R Williams |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

## 61. Datgan Buddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

## 62. Ymweliadau Safle

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cadarnhau dydd Mercher 11/12/2024 ar gyfer archwiliadau safle arfaethedig a nodwyd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor gan y Cadeirydd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

## 63. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 19 Medi 2024, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

## 64. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Gwnaeth y siaradwyr cyhoeddus canlynol annerch y Pwyllgor ar gais cynllunio P/22/508/FUL:-<br><br>Y Cynghorydd HJ David – Aelod ward<br>Jeffrey Thomas – Gwrthwynebydd<br>Geraint John – Asiant i'r ymgeisydd |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

## 65. Dalen Ddiwygio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cadeirydd yn derbyn Dalen Ddiwygio’r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i’r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, a gallu ystyried sylwadau hwyr a diwygiadau y mae angen eu cynnwys. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

## 66. Canllawiau’r Pwyllgor Rheoli Datblygu

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Nodi canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

## 67. P/22/508/Tir FUL yn Heol Cefn (hen gronfa ddŵr) Cefn Cribwr, CF32 0DA

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: (1) Bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i:<br><br>(i) Roi cyfraniad ariannol o £9,120 at ddarparu Chwaraeon Awyr Agored Ffurfiol i'w ddefnyddio i wella cyfleusterau yn agos at y datblygiad arfaethedig.<br><br>(ii) Rhoi cyfraniad ariannol o £12,000 at welliannau mewn cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus yn y coridor sy'n gwasanaethu'r safle ymgeisio.<br><br>**Cynnig**<br><br>Datblygiad preswyl o 16 uned a gwaith cysylltiedig.<br><br>(2) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn cael pwerau dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad penderfynu o ran y cynnig hwn ar ôl i’r ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Adran 106 a grybwyllwyd uchod, yn amodol ar yr amodau sydd wedi’u cynnwys yn ei hadroddiad.<br><br>Mae angen y newidiadau canlynol i'r amodau:<br><br>Amod 1: Dylid cyfeirio at y Lluniad Cynllun Safle cymeradwy: Lluniad Rhif 2275 00 (03) 101 Diwygiad I; Dylid newid Strydluniau i 2275-00 (03)400 Diwygiad D a newid Adrannau Safle i 2275-00(03)401 Adolygiad D.<br><br>Dylid addasu geiriad Amod 11 hefyd i sicrhau bod y driniaeth ffin y cytunwyd arni ger 11 Heol Cefn yn cael ei chynnal yn barhaol er mwyn sicrhau bod preifatrwydd y cymydog yn cael ei ddiogelu yn y tymor hir:<br><br>11. Er gwaethaf y cynllun a gymeradwywyd, ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes bydd cynllun diwygiedig sy’n nodi gosodiadau, uchder, dyluniad, deunyddiau a'r math o driniaeth ffin sydd i'w codi ar y ffin a rennir ag 11 Heol Cefn a’r amserlen ar gyfer gweithredu hyn wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cytuno yn ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys ffensys dros dro |

| | |
|---|---|
| | ar gyfer cyfnod clirio/adeiladu safle a manylion maint a math y driniaeth ffin ar gyfer y datblygiad gorffenedig a fydd yn ystyried lefelau'r safle arfaethedig a lefelau presennol yr eiddo cyfagos a bydd yn cynnwys amrywiad yn y gorffeniadau. Bydd gwaith datblygu yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun a'r amserlen y cytunwyd arno a bydd y driniaeth ffin y cytunwyd arni yn cael ei chadw a'i chynnal am byth.<br><br>Rheswm: Sicrhau bod amodau byw'r meddianwyr cyfagos yn cael eu diogelu yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl cwblhau/meddiannu'r datblygiad a bod cyfleusterau'r ardal yn cael eu diogelu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

**68.** **P/21/379/FUL** Tir yn Ffordd Tirion, Broadlands, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 5EJ

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: (1) Bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i:<br><br>(i) Ddarparu 15% (dwy uned) o'r unedau preswyl fel unedau tai fforddiadwy.<br><br>(iii) Rhoi cyfraniad ariannol o £5,700 (yn gysylltiedig â’r mynegai) tuag at ddarparu/gwella cyfarpar/cyfleusterau chwaraeon awyr agored o fewn ardal y safle ymgeisio.<br><br>**Cynnig**<br><br>Codi adeilad deulawr sy'n cynnwys tair uned fanwerthu a defnydd cymunedol ar lefel llawr gwaelod a deg fflat hunangynhwysol ar lefel llawr cyntaf gyda lle parcio i geir a lle amwynder cysylltiedig.<br><br>(2) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn cael pwerau dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad penderfynu o ran y cynnig hwn ar ôl i’r ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Adran 106 a grybwyllwyd uchod, yn amodol ar yr amodau sydd wedi’u cynnwys yn ei hadroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y | 31 Hydref 2024 |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | |

## 69. Apeliadau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r apeliadau sydd wedi'u derbyn ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y manylir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.<br><br>(2) (1) Diystyru'r apeliadau sydd wedi'u derbyn ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y rhestrir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.<br><br>(i) CAS-02966-N9P8D1 (1996) – Ffenestr a drysau patio newydd i'r llawr cyntaf yr honnir y'u gosodwyd heb awdurdod Hebron House, Meadow Close, Llangrallo (dylid nodi bod yr Hysbysiad Gorfodi hefyd yn amrywiol)<br>(ii) CAS-03042-Z4W3W1 (1998) – Tir blêr: 4 St Nicholas Road, Pen-y-bont ar Ogwr (dylid nodi bod yr Hysbysiad Gorfodi hefyd wedi'i gadarnhau)<br>(iii) CAS-03170-L4V0Z8 (2002) – Gwaith adeiladu yr honnir y'i gwnaed heb awdurdod 16 Suffolk Place, Porthcawl (dylid nodi bod yr Hysbysiad Gorfodi hefyd wedi'i gadarnhau)<br>(iv) CAS-03166-C6C3T6 (2003) – Dormer cefn a ffenestri to i'r wedd flaen yr honnir y'u gosodwyd heb awdurdod Ropsley, Y Sgwâr, Porthcawl<br>(v) CAS-03165-T9V6F9 (2004) – Estyniad i'r cefn a ffenestr ddormer i lawr y llofft: Ropsley, Y Sgwâr, Porthcawl<br>(vi) CAS-03334-L5K8C7 (2007) – Ochr y llawr cyntaf ac estyniad cefn i ran o'r llawr cyntaf gyda thalcen a phortsh ychwanegol i'r wedd flaen: 86 Tremains Court, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

## 70. Cofnod Hyfforddi

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau gan amlinellu sesiynau hyfforddi sydd i ddod i aelodau. Nodwyd ymhellach y dylid trefnu gweithdy am Ganllawiau Cynllunio Atodol ym mis Rhagfyr 2024 a hefyd, bod Dŵr Cymru yn cael ei wahodd i roi diweddariad pellach i'r Pwyllgor ar ddyddiad i'w gytuno yn y dyfodol, yn 2025. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

**71. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Hydref 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:20.